Mai 2017

Tai Gogledd Cymru
Datganiad Polisi Amgylcheddol

Cred Tai Gogledd Cymru bod gennym gyfrifoldeb i amddiffyn a gofalu am yr amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddo. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i wella perfformiad amgylcheddol ar draws ein holl weithgareddau busnes, a byddwn yn annog ein partneriaid busnes ac aelodau o'r gymuned ehangach i ymuno â ni yn yr ymdrech hon.

Mae Tai Gogledd Cymru yn cydnabod ein bod yn cael effaith allweddol yn y meysydd canlynol:

- Defnydd o ynni
- Cynhyrchu gwastraff
- Trafnidiaeth
- Defnyddio dŵr
- Caffael a deunyddiau crai

Byddwn yn:

- Mabwysiadu'r safonau amgylcheddol uchaf ym mhob maes gweithredu, cyfarfod a rhagori ar yr holl ofynion deddfwriaethol perthnasol.
- Asesu ein gweithgareddau sefydliadol yn barhaus ac adnabod meysydd lle gallwn leihau effeithiau niweidiol.
- Lleihau gwastraff drwy ddefnydd gofalus ac effeithlon o'r holl ddeunyddiau ac ynni.
- Cynnal ein gweithrediadau mewn modd sy'n atal neu'n lleihau'r potensial ar gyfer llygredd.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'n safbwynt amgylcheddol.
- Hyfforddi ein gweithwyr mewn arfer amgylcheddol da ac annog cyfranogiad gweithwyr mewn gweithredu amgylcheddol.
- Gwneud ystyriaethau amgylcheddol yn rhan o bob penderfyniad buddsoddi a chaffael.
- Cynorthwyo i ddatblygu atebion i broblemau amgylcheddol.

Mae Tai Gogledd Cymru wedi datblygu strategaeth cynaliadwyedd newydd i gefnogi pob un o'n hamcanion polisi amgylcheddol. Caiff hyn ei gyhoeddi ar fewnrwyd y cwmni.

Bydd Tai Gogledd Cymru yn adolygu perfformiad yn gyfnodol ac yn cyhoeddi'r canlyniadau hyn ar fewnrwyd y cwmni.

Dyddiad yr adolygiad nesaf Mai 2019

Data Polisi

Asesu Risg	Risgiau i gael eu hasesu drwy gydol y broses
Ymgynghori â Thenantiaid	Ni ymgynghorwyd â thenantiaid
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Bydd TGC yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan yr holl ddeddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth
Deddfwriaeth/Gofynion Cysylltiedig	Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (Adran 33 a 34), Deddf yr Amgylchedd, (Cymru) 2016, Deddf Newid Hinsawdd 2008, Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012, Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cymru), Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005, Rheoliadau Gwastraff (Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref) (Cymru a Lloegr) 2005, Rheoliadau Tir Halogedig (Rheoliadau Cymru) 2006, Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006, Lles Cenedlaethau'r Dyfodol Deddf 2015
Polisïau a Gweithdrefnau Cysylltiedig	Strategaeth Gaffael (i'w gadarnhau)
Dogfennau a Thaflenni Cysylltiedig	Strategaeth Cynaladwyedd 2017 – 2021 Cwmpas a Chefndir y Polisi
Math o Bolisi	Corfforaethol
Cyfrifoldeb:	
Cyfarwyddwyr	Pob Cyfarwyddwr
Rheolwyr	Pob rheolwr llinell
Adrodd	Dim angen adrodd penodol
Rhif Fersiwn Polisi	2
Ysgrifennwyd gan:	Cydlynydd Cynaladwyedd

Awdurdodwyd gan:	Prif Weithredwr
Cyfnod Adolygu	Bob dwy flynedd
Dyddiad adolygu nesaf	Mai 2019
Dyddiad(au) adolygu blaenorol	Mai 2017, Yn flynyddol o 2012